CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER*

WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **27.09.19**

EDRYCH YN ÔL – *LOOKING BACK…..*

YSGOL MAES GARMON.

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 6 y diwrnod yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau yn Ysgol Maes Garmon fel rhan o raglen pontio yr ysgol honno ddydd Mawrth. Diolchir i Ysgol Maes Garmon am ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgolion Cymraeg Sir y Fflint fel hyn.

On Tuesday, Year 6 pupils enjoyed the day doing various activities at Ysgol Maes Garmon, as part of the school's transition programme. Ysgol Maes Garmon is thanked for providing such activities for the Flintshire Welsh primary schools.

PNAWN AGORED – *OPEN AFTERNOON.*

Diolch i bawb a ddaeth i'r Pnawn Agored ddydd Mawrth, Medi 24ain. Daeth cynrychiolaeth gref iawn o rieni eleni, a braf iawn oedd gweld pawb. Fe'ch hatgoffir bod Ysgol Glanrafon yn ymfalchio yn ei pholisi 'drws agored', a chofiwch gysylltu gyda'r ysgol ar y ffôn i wneud apwyntiad i weld unrhyw athro/awes os yr hoffech drafod unrhyw fater ynglyn â'ch plentyn gydag ef/hi.

Many thanks to all those who attended the Open Afternoon on Tuesday, September 24th. A strong representation of parents came together this time, and it was great to see everyone. You are reminded that Ysgol Glanrafon is proud of its 'open door' policy, and please contact school by phone to arrange an appointment to come in to see a teacher if you wish to discuss any matter further regarding your child with him/her.

JAMBORAMA

Aeth disgyblion Blwyddyn 4 a 5 yr ysgol i ymuno gyda disgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg eraill y sir yn y Jamborama a gynhaliwyd yng Nghapel Bethesda fore Mercher yr wythnos hon.

The school's Years 4 and 5 pupils joined pupils from the other Flintshire Welsh primary schools in the Jamborama held at Bethesda chapel on Wednesday morning.

CÔR BLWYDDYN 6 – *YEAR 6 CHOIR.*

Bu'r côr yn canu yn ystod cyfnod beirniadu tref Yr Wyddgrug am wobr genedlaethol pnawn ddoe, a gwneud eu gwaith yn ardderchog, yn union fel y gwnaethant yn ystod seremoni agoriadol Gŵyl Fwyd Yr Wyddgrug fore Sadwrn.

The choir performed during the judging session of Mold for a national award at the Daniel Owen Centre yesterday afternoon, and did so very well, as they did during the opening ceremony of the Mold Food Festival on Saturday morning.

EDRYCH YMLAEN…. *LOOKING FORWARD….*

HYFFORDDIANT BEICIO – *CYCLE PROFICIENCY TRAINING.*

Atgoffir disgyblion Blwyddyn 6 sy'n dymuno cwblhau yr hyfforddiant beicio, i gofio dod â'u beiciau efo nhw i'r ysgol fore Llun, Medi 30ain. yn barod ar gyfer y diwrnod cyntaf o hyfforddiant, ac i'w cadw yn y neuadd bob nos nes bydd yr hyfforddiant wedi dod i ben ddydd Iau neu ddydd Gwener, Hydref 3ydd neu'r 4ydd.

Year 6 pupils who have expressed a wish to complete the cycling proficiency training, are reminded to bring their bikes with them to school on Monday, September 30th. in readiness for the first day of training, and to keep them in the hall every night until the training will be over on Thursday or Friday, October 3rd or 4th.

FFAIR LYFRAU BOOK PEOPLE *FAIR.*

Cynhelir y Ffair Lyfrau Saesneg o ddydd Mawrth, Hydref 1af i ddydd Llun, Hydref 7fed., ac mae croeso i chi ddod i weld ac i brynu, os y dymunwch, lyfrau yn y Ffair o 3 – 5 p.m. bob pnawn. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i'r Ffair eleni eto.

The English Book Fair will be held from Tuesday, October 1st to Monday, October 7th, and you are welcome to come along to see the books, and buy, if you so wish, between 3 and 5 p.m. every day. We would appreciate your support to the Fair again this year.

TYNNU LLUNIAU UNIGOLION/TEULUOEDD – *INDIVIDUAL/FAMILY PHOTOGRAPHS.*

Bydd cwmni Tempest yn dod yma i dynnu lluniau unigolion a brodyr a chwiorydd (o fewn yr ysgol yn unig) yn yr ysgol ddydd Iau nesaf, Hydref 3ydd. Cofiwch ein hysbysu os nad ydych am i'ch plentyn gael tynnu ei l/llun.

The Tempest company will be coming here next Thursday, October 3rd. to take individual and family photographs. (Family photographs are of brothers/sisters within school only). Please inform us if you do not wish your child to be photographed.

30.9-4.10.19 Hyfforddiant beicio – *Cycling Proficiency training.*

01-07.10.19 Ffair Lyfrau Saesneg – *English Book Fair.*

03.10.19 Tynnu lluniau unigolion/teuluoedd – *Individual/family photographs taken.*

I'r dyfodol – *to the future:*

07.10.19 Imiwneiddio rhag y ffliw (Derbyn i Fl. 6) – *Flu immunisation (Reception – Yr.6)*

BWYDLEN YR WYTHNOS – *MENU OF THE WEEK.*

WYTHNOS/*WEEK* 3